# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaethau Democrataidd**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**

Dyddiad ac Amser

**DYDD LLUN, 1AF RHAGFYR, 2025**

**DILYN YMLAEN O'R PWYLLGOR TRWYDDEDU CYFFREDINOL**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol**

*** NODER ***

***I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni**

Pwynt Cyswllt

**Lowri Haf Evans**

**01286 679 878**

**lowrihafevans@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd 21 Tachwedd 2025)

# PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG

## AELODAETH (15)

## Plaid Cymru (10)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Edgar Wyn Owen
Elfed Williams
Gwynfor Owen
Gwilym Evans
Gareth Tudor Jones
Huw Rowlands
Alan Jones Evans
Arwyn Herald Roberts
Meryl Roberts

## Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Gareth Williams
John Brynmor Hughes
Hefin Underwood
Angela Russell
Anwen J. Davies

## Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N

## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriadau am absenoldeb

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiad o fuddiant personol

## 3. MATERION BRYS

Nodi unrhyw eitemau sy'n fater brys ym marn y cadeirydd fel y gellir eu hystyried.

## 4. COFNODION 4

Bydd y Cadeirydd yn cynnig y dylid llofnodi cofnodion cyfarfod o'r pwyllgor hwn a gynhaliwyd 30 Mehefin 2025 fel rhai cywir

## 5. COFNODION IS-BWYLLGORAU TRWYDDEDU 5 - 14

Cyflwyno, er gwybodaeth, cofnodion yr Is Bwyllgor Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd ar y dyddiau canlynol:
–

a) 13/08/2025

b) 16/07/2025

**PWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG 30-06-2025**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Alan Jones Evans, Gwilym Evans, Annwen Hughes, Gareth Tudor Jones, Edgar Wyn Owen, Huw Rowlands, Elfed Williams, Gwynfor Owen, Arwyn Herald Roberts, Meryl Roberts, Angela Russell, a Gareth Williams

**Swyddogion:** Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu), Nia Grisdale (Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Ymddiheuriadau:** Cynghorwyr Anwen Davies, John Brynmor Hughes a Hefin Underwood

**1. ETHOL CADEIRYDD AR GYFER 2025/26**

**PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD GWYNFOR OWEN YN GADEIRYDD AR GYFER 2025/26**

Diolchwyd i'r Cyng Elfed Williams am ei waith fel Cadeirydd dros y flwyddyn diwethaf.

Croesawyd y Cyng Meryl Roberts a'r Cyng Gwilym Evans i'w cyfarfod cyntaf.

**2. ETHOL IS-GADEIRYDD AR GYFER 2025/26**

**PENDERFYNWYD ETHOL Y CYNGHORYDD ARWYN HERALD ROBERTS YN IS-GADEIRYDD AR GYFER 2025/26**

**3. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**4. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad o fuddiant personol gan unrhyw aelod oedd yn bresennol.

**5. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**6. COFNODION CYFARFOD DIWETHAF**

Llofnododd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod o'r pwyllgor a gynhaliwyd 10fed o Fawrth 2025 fel rhai cywir

**7. COFNODION IS BWYLLGORAU TRWYDDEDU CANOLOG**

Cyflwynwyd a derbyniwyd er gwybodaeth, gofnodion Is Bwyllgorau Trwyddedu Canolog a gynhaliwyd 7fed o Chwefror 2025 a 30ain o Ebrill 2025 fel rhai cywir.

Dechreuodd y cyfarfod am 10.00am a daeth i ben am 10:10am

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**
**Awst 13eg 2025**

**Presenoldeb:**

**Cynghorwyr:** Gwynfor Owen (Cadeirydd), Gareth Tudor Jones a Meryl Roberts

**Swyddogion:** Nia Grisdale (Rheolwr Adran Cyfreithiol), Nicola Williams (Swyddog Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth)

**Eraill a wahoddwyd:**

**Eitem 4:**
**Cais Trwydded Eiddo: Bella Pizza, 19, Twll yn y Wal, Caernarfon, Gwynedd**

| | |
|---|---|
| Rebecca Owen | Ymgeisydd |
| Ffion Lewis | Swyddog Gwarchod y Cyhoedd |
| Elizabeth Williams | Heddlu Gogledd Cymru |
| Awen Gwyn | Perchennog eiddo cyfagos |

**1. YMDDIHEURIADAU**

Dim i'w nodi

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO: Bella Pizza, 19, Twll yn y Wal, Caernarfon, Gwynedd**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Bella Pizza, 19 Twll yn y Wal, Caernarfon, Gwynedd. Roedd y cwmni yn gwneud cais am drwydded eiddo ar gyfer darparu Lluniaeth Hwyr yn y Nos oddi ar yr eiddo dydd Llun - dydd Iau 23:00-00:00, dydd Gwener - dydd Sadwrn 23:00-02:00, a dydd Sul 23:00-00:00.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol.

Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Adroddwyd bod Iechyd yr Amgylchedd wedi cyflwyno gwrthwynebiad yn ymwneud ag agosatrwydd yr eiddo at adeiladu preswyl ynghyd a phryder am effaith gronnus lleoliadau trwyddedig eraill ar y stryd fyddai'n tanseilio'r amcan i atal niwsans cyhoeddus. Roedd Aelod o'r cyhoedd hefyd yn gwrthwynebu ar sail aflonyddwch a chynnydd posib mewn ymddygiad gwrthgymdeithasol sydd eisoes yn bodoli yn yr ardal yma. Ategwyd y gall y datblygiad gael effaith negyddol ar leoliad hanesyddol a gwaethygu'r broblem o sbwriel. Gwnaed awgrym y dylid cael swyddogion diogelwch ar y drws.

Cyfeiriwyd at gadarnhad gan yr Adran Cynllunio bod cais Cynllunio i ddiwygio'r oriau wedi ei ddilysu ac yn cael ei ystyried, er yn tynnu sylw mai estyniad hyd at 1:00 yn unig oedd ar y cais.

Roedd Heddlu Gogledd Cymru yn cadarnhau nad oedd ganddynt wrthwynebiad i'r cais a Chyngor Tref Caernarfon yn unfrydol yn cefnogi'r cais gan gydnabod nad yw'r eiddo yn gwerthu alcohol nac yn chwarae cerddoriaeth, ac yn weithredol yn annog pobl i beidio â pharcio ar y stryd

Roedd y swyddogion, yn unol â Deddf Drwyddedu 2003, yn argymell i'r Pwyllgor ystyried y sylwadau a dderbyniwyd, yn enwedig y pryderon am y posibilrwydd y gallai ymestyn oriau agor y busnes bwyd i'w gario allan waethygu'r ymddygiad gwrthgymdeithasol presennol yn y stryd drwy ddenu grwpiau o bobl ifanc a'u cadw yno'n hwyrach.

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.
- Swyddog cyfreithiol i grynhoi gofynion y cais

c) Mewn ymateb i gwestiwn am y nifer lleoliadau tebyg yn y dref sydd gydag oriau cyffelyb ac yn gwerthu bwyd tecawe, nodwyd bod chwe lleoliad yn y dref, ond dim un gyda swyddogion diogelwch ar y drysau.

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â thorri amod caniatâd cynllunio yn ymwneud ag unedau echdynnu, nododd yr ymgeisydd bod Swyddog Cynllunio wedi ymweld â'r eiddo ac wedi derbyn bod y cyfarpar yn dderbyniol. Ategodd bod y system echdynnu yn un mewnol.

ch) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Bod ganddi gysylltiad personol gyda'r stryd – yn gyfarwydd â'r stryd ac nad oedd yn benderfyniad ar hap i ail leoli yno
- Nad yw yn gadael i staff barcio ar y stryd er nad oes cyfyngiadau parcio ar y stryd
- Ei bod yn gymydog cyfrifol – yn cadw'r stryd yn lan ac yn cadw trefn
- Yn annog cwsmeriaid i symud ymlaen ar ôl prynu bwyd
- Ei bod wedi trafod y cais i ymestyn yr oriau gyda phreswylwyr
- Bod yr uned echdynnu aer yn un mewnol ac felly, er y gost i'r busnes, yn cael llai o effaith ar drigolion

- Bod ganddi 12 o staff cydwybodol iawn, pam felly bod angen swyddogion diogelwch ar y drws
- Bod ganddi bum mlynedd o brofiad rheoli eiddo
- Ei bod yn hapus i addasu'r oriau agor ar nos Wener a nos Sadwrn i 1:00

Rhannwyd fideos gan yr ymgeisydd yn amlygu sŵn ar y stryd

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â sylw gan Cyngor Tref Caernarfon nad yw arwyddion y siop yn gyson gydag edrychiad cyffredinol y stryd, nododd nad oedd yn deall y sylw ond ei bod wedi ceisio cadw'r arwydd fel pob un arall yn y stryd fel ei fod yn gweddu.

d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt:

Awen Gwyn, Perchennog eiddo cyfagos
- Bod angen plismona sŵn o'r tafarndai
- Bod angen ymddwyn yn gyfrifol
- Bod y sŵn yn amharu ar ei thenantiaid
- Bod rhaid cwyno am y sŵn yn ffurfiol

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn ag eiddo Bella House, Caernarfon ac os oedd Bella House a Bella Pizza yr un cwmni, nododd nad oedd gan Bella Pizza ddim byd i wneud efo Bella House

Ffion Lewis, Swyddog Gwarchod y Cyhoedd
- Pryder bydd y siop yn annog mwy o bobl i ymgynnull a gwneud sŵn o flaen tai preswylwyr
- Pryder y bydd lefelau uchel o sŵn rhwng 00:00 a 01:30
- Pryder am effaith gronnus lleoliadau trwyddedig ar y stryd
- Pryder y bydd cynnydd mewn problemau ymddygiad / niwsans cyhoeddus

Elizabeth Williams, Heddlu Gogledd Cymru
- Bod y lleoliad yn un prysur
- Dim cwynion wedi eu derbyn ers i Bella Pizza agor

dd) Nid oedd gan y Swyddog Trwyddedu sylwadau pellach i'w cyflwyno i gloi ei hachos

Manteisiodd yr ymgeisydd ar y cyfle i grynhoi ei hachos gan nodi nad oedd preswylwyr y stryd wedi cwyno am Bella Pizza er iddynt gwyno yn ddyddiol am sŵn o Neuadd y Farchnad a Four Alls

e) Cymerodd y Swyddog Cyfreithiol y cyfle i grynhoi gofynion y cais
- Oriau trwyddedig 23:00 - 00:00 dydd Sul tan ddydd Iau
- Oriau trwyddedig 23:00 – 01:00 dydd Gwener a dydd Sadwrn

Ymneilltuodd cynrychiolydd yr ymgeisydd a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNIAD: Caniatáu y cais**

**Oriau Agor:**
**Dydd Sul 16:00 – 00:00**
**Dydd Llun 16:00 – 00:00**
**Dydd Mawrth 16:00 – 00:00**
**Dydd Mercher 16:00 – 00:00**
**Dydd Iau 16:00 – 00:00**
**Dydd Gwener 16:00 – 01:00**
**Dydd Sadwrn 16:00 – 01:00**

**Gweithgareddau Trwyddedadwy:**

**Lluniaeth hwyr yn y nos – Oddi ar yr eiddo**

**Dydd Sul 23:00 – 00:00**
**Dydd Llun 23:00 – 00:00**
**Dydd Mawrth 23:00 – 00:00**
**Dydd Mercher 23:00 – 00:00**
**Dydd Iau 23:00 – 00:00**
**Dydd Gwener 23:00 – 01:00**
**Dydd Sadwrn 23:00 – 01:00**

**Y mesurau ychwanegol, fel y nodir yn rhan M y cais, i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded:**

- **Camerâu TCC mewnol ac allanol yn weledol iawn**
- **Hyfforddi staff ar sut i ymdrin â chwsmeriaid annifyr / meddw ac afreolus**
- **2 llifolau mawr ar flaen yr adeilad**
- **Staff i sicrhau nad yw cwsmeriaid yn ymgynnull o flaen y siop**
- **Staff i lanhau'r stryd ar ôl oriau agor**

Nodyn: Dylid cadw'r amodau cynllunio sy'n ymwneud â'r uned echdynnu neu'r offer cysylltiedig, a chadarnhau bod hyn wedi'i gytuno a'i dderbyn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol

Yng nghyd-destun **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn**, ni chyflwynodd yr Heddlu unrhyw wrthwynebiad mewn ymateb i'r cais ac ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth arall perthnasol i'r egwyddor yma.

Yng nghyd-destun materion **Diogelwch Cyhoeddus** ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor yma.

Yng nghyd-destun **Atal niwsans cyhoeddus**, ni chyflwynwyd tystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hwn, fodd bynnag derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau gan Adran Iechyd yr Amgylchedd ac unigolyn a gyflwynodd bryderon am y potensial o

ymddygiadau gwrthgymdeithasol a materion niwsans cyhoeddus all ddod i'r amlwg o ganiatáu'r cais. Bu i’r Is-bwyllgor ystyried y sylwadau a'r pryderon y byddai caniatáu'r cais yn cynyddu ymddygiad gwrthgymdeithasol a / neu gynyddu lefelau sŵn, ond nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod tystiolaeth wedi ei gyflwyno yn amlygu bod niwsans cyhoeddus yn berthnasol i’r eiddo yma. Ymhellach, derbyniodd yr Is-bwyllgor gynnig yr ymgeisydd i sicrhau byddai cwsmeriaid yn cael eu hannog i adael yr ardal ar ôl iddynt gael eu harcheb a'u hymdrechion i symud pobl o’r tafarndai cyfagos i beidio ymgynnull yn y stryd. Bu I’r Is-bwyllgor hefyd ystyried bod yr ymgeisydd yn fodlon lleihau’r oriau trwyddedadwy i 1:00 yn hytrach na 2:00 i gyfyngu effeithiau ar eiddo cyfagos.

Nid oedd yr Is-bwyllgor o'r farn bod unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r angen i osod amod i'r ymgeisydd gyflogi staff diogelwch drws.

Fel unrhyw gais arall, petai unrhyw broblemau yn codi mewn cysylltiad â’r egwyddorion Trwyddedu, mae’r Ddeddf yn caniatáu cyfeirio trwydded i’w hadolygu gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth berthnasol i gefnogi’r sylwadau.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai’r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i’r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o’r fath drwy roi rhybudd o apêl i’r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â’r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau’r penderfyniad.

**5. CAIS AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO: Soch, Abersoch, Pwllheli, Gwynedd Ll53 7DS**

**YMGEISYDD WEDI TYNNU Y CAIS YN ÔL**

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:20pm

**IS-BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG**
**Gorffennaf 16eg 2025**

**Presenoldeb:**

| | |
|---|---|
| **Cynghorwyr:** | Gwynfor Owen (Cadeirydd), Edgar Owen ac Angela Russell |
| **Swyddogion:** | Nia Grisdale (Rheolwr Adran Cyfreithiol), Gwenan Mai Roberts (Rheolwr Trwyddedu) a Lowri Haf Evans (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth) |

**Eraill a wahoddwyd:**

**Eitem 4:**
**Cais Trwydded Eiddo: Otto's, 2 Seaview Terrace, Aberdyfi**

| | |
|---|---|
| Sam Woodward | Yr Ymgeisydd |
| Daniel Cartwright | Uwch Swyddog Harbyrau |
| Gary Loveman | Preswylydd Lleol / Dyn Busnes |

**1. YMDDIHEURIADAU**

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Bryn Pritchard Jones (Rheolwr Gwasanaeth Morwrol) a Mr Phil Thomas (Preswylydd Lleol)

**2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Dim i'w nodi

**3. MATERION BRYS**

Dim i'w nodi

**4. CAIS AMRYWIAD TRWYDDED EIDDO: Otto's, 2 Seaview Terrace, Aberdyfi**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

a) **Adroddiad yr Adran Trwyddedu**

Cyflwynwyd adroddiad Pennaeth yr Adran Amgylchedd yn manylu ar gais am drwydded eiddo ar gyfer Otto's Aberdyfi, Unit 2, Information Centre, The Wharf, Seaview Terrace, Aberdyfi, Gwynedd, LL35 0ED. Eglurwyd mai caffi bychan yw'r eiddo wedi ei leoli yng ngherddi y cei yn Aberdyfi sydd gydag ardal eistedd ddynodedig tu allan ac yn wynebu'r môr, i ffwrdd oddi wrth y ffordd a phreswylfeydd. Amlygwyd bod yr ardal yn cael ei rentu gan Harbwr Aberdyfi a Chyngor Gwynedd.

Nodwyd bod y caffi yn gwerthu pitsas, brechdanau ac ati o'r eiddo ar gyfer eu bwyta ar yr eiddo yn yr ardal tu allan, neu oddi ar yr eiddo fel pryd ar glyd. Bydd bwriad hefyd gwerthu

alcohol i'w yfed ar yr eiddo yn ddyddiol neu ei werthu gyda bwyd pryd ar glyd mewn cynhwysyddion wedi eu selio – yr ymgeisydd yn ceisio am drwydded i werthu alcohol (ar ac oddi ar yr eiddo) o 11:00 – 22:00, o ddydd Llun i Sul. Bydd yr amser agor yn cael ei amrywio yn dymhorol.

Nodwyd bod gan Swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu dystiolaeth ddigonol bod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol. Cyfeiriwyd at y mesurau yr oedd yr ymgeisydd yn ei argymell i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu ac amlygwyd y byddai'r mesurau hyn yn cael eu cynnwys ar y drwydded.

Adroddwyd nad oedd yr Awdurdodau Cyfrifol wedi cyflwyno sylwadau, ond tynnwyd sylw at ymatebion a dderbyniwyd gan Aelodau o'r Cyhoedd a'r Gwasanaeth Morwrol. Roedd y cyhoedd, yn pryderu, o safbwynt diogelwch y gallai cais am unrhyw werthiant alcohol ger y porthladd / harbwr arwain at ddamweiniau gerllaw ardal lle mae teuluoedd â phlant yn mwynhau pysgota cranc. Amlygwyd pryder hefyd,

- byddai cyfuno gwerthu alcohol gyda gwerthiant bwyd i'w fwyta i ffwrdd o'r eiddo yn cynyddu'r posibilrwydd y bydd Gerddi Wharf yn cael eu defnyddio i fwyta'r bwyd ac yfed unrhyw alcohol a brynwyd ar yr un pryd - hyn yn cynyddu'r posibilrwydd o drafferthion ymddygiad anghymdeithasol, gan gynnwys sŵn annheg ac amhriodol, arogleuon, gwastraff (gan gynnwys gwydr).
- bod lleoliad y bwyty mewn lle prysur iawn ar yr harbwr yn Aberdyfi – cychod pysgota gweithredol a cherbydau yn lansio a llwytho. Y Gwaun, sydd yn cael ei redeg gan Rheolwr yr Harbwr, yn brysur gyda materion diogelwch.

Roedd sylwadau'r Gwasanaeth Morwrol yn nodi pryder nad oedd yr ymgeisydd heb dderbyn caniatâd gan Bwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi cyn cyflwyno cais gwerthu alcohol.

Roedd y swyddogion, yn unol â Deddf Drwyddedu 2003, yn argymell bod y Pwyllgor yn ystyried sylwadau'r ymatebwyr, ac ymateb yr ymgeisydd i'r pryderon - ac yn caniatáu'r cais. Ystyriwyd bod yr oriau a ofynnwyd amdanynt yn rhesymol, ac yn cyd-fynd hefo busnesau cyffelyb gerllaw. Nid prif bwrpas y busnes yw gwerthu alcohol; y bwriad yw bod y gwerthiant alcohol yn cyd-fynd ac yn ategu gwerthiant bwyd o'r eiddo. Nid yw'r eiddo yn agos at dai, a'r ardal eistedd yn wynebu'r môr, sydd yn gwneud y risg o niwsans sŵn yn isel.

Rhannwyd lluniau ar y sgrin o leoliad y safle.
Eglurwyd:

- nad oedd mynediad cerbydau masnachol i'r Harbwr
- Bod yr ardal eistedd tu allan i'r eiddo yn gyfyngedig
- Bod y cais arfaethedig yn cyd-fynd a chais cynllunio diweddaraf yr eiddo

b) Wrth ystyried y cais dilynwyd y drefn ganlynol-:

- Cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd, yr ymgeisydd neu ei gynrychiolydd i ofyn cwestiynau i gynrychiolydd y Cyngor.
- Rhoi cyfle i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd ymhelaethu ar y cais a galw tystion
- Rhoi cyfle i Aelodau'r Is-bwyllgor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd a/neu ei gynrychiolydd
- Ar ddisgresiwn y Cadeirydd gall cynrychiolydd y Cyngor ofyn cwestiynau i'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd
- Rhoi gwahoddiad i bob Ymgynghorai gefnogi unrhyw sylwadau ysgrifenedig
- Rhoi cyfle i gynrychiolydd y Cyngor a'r ymgeisydd neu ei gynrychiolydd grynhoi eu hachos.
- Swyddog cyfreithiol i grynhoi gofynion y cais

c) Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â beth oedd yr adeilad drws nesaf i'r safle, nodwyd mai Canolfan Croeso Parc Cenedlae4thol Eryri oedd yma. Ategwyd bod safle'r Clwb Rhwyfo gerllaw.

ch) Wrth ymhelaethu ar y cais, nododd yr ymgeisydd y sylwadau canlynol:

- Bod y caffi yn gaffi bach yn gwerthu pitsas a brechdanau ac ati
- Bod y caffi ar agor tan 21:00
- Bod y caffi yn un ar gyfer teuluoedd – yn ymwybodol o weithgareddau teulu cyfagos – diogelwch plant yn flaenoriaeth
- Gyda chefnogaeth Parc Cenedlaethol Eryri a Swyddfa'r Harbwr Feistr, cymeradwywyd cais defnydd A3 ar gyfer seddi awyr agored ym mis Gorffennaf 2024. Ym mis Mai 2025 derbyniodd y safle drwydded gan Adran Forwrol Gwynedd ar gyfer seddi awyr agored o fis Chwefror i fis Hydref. Nid oedd y brydles yn gwahardd gwerthu alcohol.
- Ym mis Mehefin 2025, cymeradwywyd addasiad i'r cais cynllunio i ganiatáu gwerthu bwyd poeth i'w gludo oddi ar yr eiddo. Roedd amod ar y drwydded yn nodi bod angen i'r ardal eistedd gael ei hamgylchynu gan rwystrau diogelwch. Adroddwyd bod ffens newydd wedi ei godi o amgylch y cei ac fe'i gynlluniwyd gyda diogelwch plant yn pysgota am grancod mewn golwg. Dilynwyd proses asesu risg drylwyr wrth adeiladu'r cei a'r ardal wedi'i ffensio.
- Bod yr ardal eistedd o flaen y caffi yn gyfyngedig, fydd ond yn cael ei ddefnyddio pan fydd y tywydd yn ffafriol
- Nad oedd bwriad gwerthu diod heb fwyd - ni fyddai hyn o fudd i'r busnes. Ni fydd yr alcohol yn cael ei weini mewn poteli / gwydr
- Wedi agor am 3 noson, rhai cwsmeriaid wed dod â diodydd alcohol o leoliadau trwyddedig eraill i fwynhau gyda'u bwyd, felly mae galw amlwg amdano
- Yn pwysleisio nad oedd bwriad rhedeg y lle fel tafarn neu far gwin
- Yn rhagweld bydd y rhan fwyaf o'r busnes mewn bwyd tecawe neu bryd ar glyd - bod angen trwydded i gynnig gwerthu alcohol i'r cleientiaid hyn
- Ei fod yn ymddiheuro nad oedd wedi cysylltu gyda'r Gwasanaeth Morwrol cyn cyflwyno'r cais

Mewn ymateb i gwestiwn ynglŷn â'r oriau agor, nododd yr ymgeisydd bod y caffi ar agor tan 21:00, ond bod y gwasanaeth tecawe a phryd ar glyd ar gael tan 22:00

d) Manteisiodd yr ymgynghorai oedd yn bresennol ar y cyfle i ymhelaethu ar sylwadau a gyflwynwyd yn ysgrifenedig ganddynt:

**Daniel Cartwright, Uwch Swyddog Harbyrau**

- Bod materion gweithredol a diogelwch i'w trafod yng nghyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi. Y pwyllgor heb gyfarfod i drafod y cais - cyfarfod nesaf ym mis Hydref

**Gary Loveman, Preswylydd / Dyn Busnes Lleol**

Mewn ymateb i awgrym gan Mr Loveman bod penderfyniad i ganiatáu'r cais eisoes wedi ei wneud cyn y gwrandawiad, nododd y Swyddog Cyfreithiol a'r Cadeirydd nad oedd trafodaeth wedi bod ar y mater ac mai argymhelliad gan y swyddogion trwyddedu yn unig oedd wedi ei gyflwyno.

- Bod pryderon am ddiogelwch plant ar y safle
- Byddai mwy o sbwriel o gwmpas y safle

- Nad oedd person dynodedig ar y safle i oruchwylio pethau o ddydd i ddydd. Y perchennog yn ddyn prysur iawn
- Nad oedd lle i eistedd tu mewn i'r caffi
- Bod angen cefnogaeth yr Harbwr
- Nad oedd y safle yn addas ar gyfer gwerthiant alcohol yn Aberdyfi

dd) Manteisiodd y Rheolwr Trwyddedu ar y cyfle i grynhoi ei hachos, gan nodi bod yr argymhelliad wedi ei gynnig ar sail gwybodaeth a gyflwynwyd, gan ategu nad oedd tystiolaeth wedi ei gyflwyno gan yr ymatebwyr i gynnig argymhelliad i wrthod y cais. Nodwyd nad oedd yr awdurdodau cyfrifol wedi cynnig sylwadau i wrthod y cais a chwestiynwyd swyddogaethau a hawliau Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi i ganiatáu / wrthod trwydded.

Nodwyd nad oedd angen trwydded i eistedd allan i yfed alcohol a bod busnesau eraill yn y dref yn manteisio ar hyn. Bychan iawn yw'r ardal eistedd tu allan i'r caffi ac ni fydd gwerthiant alcohol o'r safle yn arwain at gynnydd sylweddol mewn eistedd allan i yfed alcohol

Manteisiodd yr ymgeisydd ar y cyfle i grynhoi ei achos gan nodi ei fod yn darparu cyflogaeth yn lleol, a pe byddai Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi eisiau cynnig sylwadau, byddai modd iddynt drefnu cyfarfod arbennig o'r pwyllgor.

e) Cymerodd y Swyddog Cyfreithiol y cyfle i grynhoi gofynion y cais
- Cais i gyflawni alcohol ar ac oddi ar yr eiddo o 11:00 – 22:00 dydd Llun i ddydd Sul
- Bod rheolaeth a chofnod Teledu Cylch Cyfyng yn cael ei amodi ar y drwydded

dd) Ymneilltuodd cynrychiolydd yr ymgeisydd a'r Rheolwr Trwyddedu o'r cyfarfod tra bu i aelodau'r Is-bwyllgor drafod y cais.

Wrth gyrraedd y penderfyniad ystyriodd yr Is-bwyllgor ffurflen gais yr ymgeisydd, sylwadau ysgrifenedig a gyflwynwyd gan y partïon â diddordeb, adroddiad y Swyddog Trwyddedu ynghyd â sylwadau llafar pob parti yn bresennol yn y gwrandawiad. Ystyriwyd Polisi Trwyddedu'r Cyngor a chanllawiau'r Swyddfa Gartref. Rhoddodd yr Is-bwyllgor ystyriaeth briodol i'r holl sylwadau gan eu pwyso a'u mesur yn erbyn yr amcanion trwyddedu o dan y Ddeddf Trwyddedu 2003, sef:

i. Atal trosedd ac anhrefn
ii. Atal niwsans cyhoeddus
iii. Sicrhau diogelwch cyhoeddus
iv. Gwarchod plant rhag niwed

Diystyrwyd y sylwadau a ddaeth i law i'r graddau eu bod yn amherthnasol i'r amcanion uchod.

**PENDERFYNIAD: Caniatáu y cais**

**Oriau Agor:**

**Dydd Sul 11:00 – 22:00**
**Dydd Llun 11:00 - 22:00**
**Dydd Mawrth 11:00 - 22:00**
**Dydd Mercher 11:00 - 22:00**
**Dydd Iau 11:00 - 22:00**
**Dydd Gwener 11:00 - 22:00**
**Dydd Sadwrn 11:00 - 22:00**

**Gweithgareddau Trwyddedadwy**

**Cyflenwi Alcohol ar ac oddi ar yr Eiddo**

**Dydd Sul 11:00 - 22:00**
**Dydd Llun 11:00 22:00**
**Dydd Mawrth 11:00 - 22:00**
**Dydd Mercher 11:00 - 22:00**
**Dydd Iau 11:00 - 22:00**
**Dydd Gwener 11:00 - 22:00**
**Dydd Sadwrn 11:00 - 22:00**

**Y mesurau ychwanegol, fel y nodir yn rhan M y cais, i'w cynnwys fel amodau ar y drwydded:**

- **Hyfforddiant Staff**
- **Her 25**
- **Bydd alcohol, a archebir fel gwerthiant oddi ar y safle i'w ddanfon allan (tecawê), yn cael ei werthu mewn cynwysyddion wedi'u selio.**
- **Bydd pob gwerthiant alcohol arall i'w yfed ar y safle ac oddi arno yn cael ei werthu mewn cwpanau plastig y gellir eu hailddefnyddio o dan gynllun blaendal.**
- **TCC yn weithredol ar y safle**

Yng nghyd-destun **Rhwystro Trosedd ac Anrhefn**, ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor yma.

Yng nghyd-destun materion **Diogelwch Cyhoeddus** derbyniwyd sylwadau a gwrthwynebiadau gan gymdogion i'r Caffi oedd wedi mynegi pryderon am ddiogelwch cyhoedd o ystyried lleoliad y cais. Fodd bynnag, ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau na gwrthwynebiadau gan Adran Gwarchod y Cyhoedd ac ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth i gefnogi'r pryderon. Er derbyn a nodi'r pryderon a fynegwyd gan y preswylwyr lleol, nid oedd yr Is-bwyllgor yn ystyried bod tystiolaeth yn dangos bod yr egwyddor yma yn cael ei danseilio. Roedd yr is-bwyllgor yn nodi bod gweithredu teledu cylch cyfyng yn amod o'r drwydded ac y dylai'r system gael ei monitro yn rheolaidd.

Yng nghyd-destun **Atal niwsans cyhoeddus**, ni chyflwynwyd sylwadau na thystiolaeth oedd yn berthnasol i'r egwyddor hon.

Yng nghyd-destun **Gwarchod Plant Rhag Niwed,** derbyniwyd ac ystyriwyd sylwadau am yr egwyddor yma, ond ni chyflwynwyd unrhyw dystiolaeth berthnasol i gefnogi'r sylwadau.

Nodwyd, fel gyda phob trwydded a ganiateir, pe byddai unrhyw broblemau'n codi mewn cysylltiad â'r egwyddorion trwyddedu, bod y Ddeddf yn caniatáu i unrhyw drwydded gael ei chyfeirio am adolygiad gan yr Awdurdod Trwyddedu.

Adroddodd y Cyfreithiwr y byddai'r penderfyniad yn cael ei gadarnhau yn ffurfiol drwy lythyr i bawb oedd wedi cyflwyno sylwadau ysgrifenedig. Ategwyd bod gan bob parti i'r cais yr hawl i gyflwyno apêl yn Llys Ynadon Caernarfon yn erbyn penderfyniad yr Is-bwyllgor. Dylid cyfeirio unrhyw apêl o'r fath drwy roi rhybudd o apêl i'r Prif Weithredwr, Llys Ynadon Llandudno, Llandudno, o fewn cyfnod o 21 diwrnod gan gychwyn â'r dyddiad y bydd yr apelydd yn derbyn llythyr (neu gopi ohono) yn cadarnhau'r penderfyniad.

Dechreuodd y cyfarfod am 2:00pm a daeth i ben am 3:40pm